# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

**RHIF 132** **CHWEFROR** 1987

# STATWS NEWYDD

Ar adeg pan fo'r ymgyrch dros Ddeddf Iaith yn cynyddu mae Caerdydd wedi datblygu yn ganolbwynt gweithredu dros statws i'r Gymraeg.

Cyhoeddodd dau o brif fanciau'r Brifddinas, Lloyds a Barclays, eu bod am agor cownteri Cymraeg. Bussai'r cownteri hyn yn ychwanegol i'r cownter sydd eisoes yn bodoli ym Manc y Midland, Heol y Frenhines.

(Mae'r gell leol o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn disgwyl ymateb banciau eraill gan gynnwys National Westminster, Co-Operative a Banc Cymru).

Yn ystod mis Ionawr ail-agorwyd cownter Cymraeg y Swyddfa Bost yn Churchill Way. Ar ddechrau Rhagfyr ataliwyd y gwasanaeth ar orchymyn Cadeirydd newydd y Swyddfa Bost, a hynny yn groes i gytundeb rhwng y cyn-Gadeirydd a Chymdeithas yr Iaith.

Cynhaliwyd gwrthdystiad yn y Swyddfa Bost gyda'r protestwyr yn mynnu adfer gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Bu cryn gythrwfl wrth i'r hanner dwsin o blismyn a oedd yn bresennol ddatgan mai ar gyfer pobl a ddefnyddiai'r Saesneg yn unig yr oedd 'na wasanaeth ar gael. Yng ngeiriau un o'r glas - "You don't get served if you speak French, German or Welsh".

Deellir i Gell Caerdydd ddanfon llythyr yn ddiweddarach at Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru. Holai'r llythyr a oedd gwadu gwasanaeth i Gymry Cymraeg yn bolisi swyddogol gan yr Awdurdod Heddlu. Rhoddwyd rhybudd yn ogystal o fwriad y gell i wneud cwyn i'r Comisiwn dros Gysylltiadau Hiliol.

Bum niwrnod ar ôl y gwrthdystiad cyhoeddwyd bod y Cadeirydd wedi ail-ystyried ei benderfyniad ac y byddai'n ail-agor y cownter Cymraeg am gyfnod arbrofol o chwe mis.

Mae'r cynnydd yn statws cyhoeddus y Gymraeg yn digwydd ar adeg pan fo Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gwahodd ymateb i'r syniad o Ddeddf Iaith Newydd. Siomedig, yn ôl yr hyn a ddeallа'r 'Dinesydd', fu'r ymateb hyd yn hyn. Ac araf iawn o ran hynny fu mudiadau Cymraeg Caerdydd yn lleisio barn. Rhaid i'ch sylwadau gyrraedd y Swyddfa Gymreig erbyn diwedd mis Mawrth.



*Pwy yw'r rhain, a be' maen' nhw'n ei wneud? Trowch i "Llygaid y Ddraig" Tud 9*

Trowch i "Llygaid y Ddraig" Tud 9

# MR. TOM EVANS

Y DINESYDD YN TALU TEYRNGED HAEDDIANNOL I BRIFATHRO

Maé'n siwr bod cyfle arbennig eleni i anrhydeddu prifathro sydd wedi ennill parch arbennig yn ystod y chwe blynedd diwethaf trwy gyfannu dau blentyn ag anghenion arbennig difrifol i mewn i fywyd cyfan ysgol Gymraeg yn y Ddinas.

Enw'r gwron y tro hwn yw'r Br R T Evans, Prifathro Coed y Gof.

Chwe blynedd yn ôl roedd rhoi addysg trwy gyfrwng y Gymraeg i blant ag anghenion arbennig yn anathema i'r arbenigwyr. Saesneg oedd yr unig gyfrwng y dylid rhoi addysg iddyn nhw. Yn wir mam a thad anghyfrifol oedd y rhai a feiddiai beidio a newid iaith eu teulu er mwyn cyflwyno Saesneg i'r rhai bach.

Chwe blynedd yn ôl roedd hi'n anarferol er nad yn hollol eithriadol i blant dan anfantais i gael addysg yn un o ysgolion cyffredin y Wladwriaeth.

Derbyniodd Mr Evans yr her o addysgu dau fachgen trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ar waethaf eu hanabledd yn ei ysgol yng Nghoed y Gof. Gogoniant Mr Evans fel prifathro yw ei fod yn derbyn pob plentyn fel y mae ac yn addunedu i roi'r addysg orau posibl iddo yn ôl ei allu a'r plant wedyn yn cyrraedd safon uwch nag y bydden nhw'u hunain yn ei ddisgwyl.

Rhoddodd Mr Evans yr un her i'w athrawon chwe blynedd yn ôl. Cafodd y ddau fachgen eu derbyn i mewn i'r ysgol i gael addysg fel pob plentyn arall.

Ar dafod leferydd yn unig y mae'r Awdurdod yn clodfori'r Uned. Yn eu llyfryn ar Addysg Arbennig yn y Sir nid ydynt am gydnabod bod y fath sefyllfa y yn bodoli. Caiff plant ag anghenion arbennig gyfle i gael eu haddysg trwy'r Gymraeg pan wna'r rhieni ymholiadau a gofyn amdano ac os cred yr awdurdod bod hyn yn addas ar gyfer y plentyn. Nid yw'n hawl sylfaenol iddynt fel pawb arall. Pan fo rhieni o Wynedd yn ffonio nid oes nac Uned Gymraeg i blant dan anfantais na seicolegwyr i asesu'r plant trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ne Morgannwg. Gobaith y Mudiad Meithrin yw ehangu'r ddarpariaeth i gael Uned Asesu i blant oed meithrin fel sydd yn Preswylfan trwy gyfrwng y Saesneg.

# LLYTHYRAU LLYTHYRAU LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,

Beth amser yn ôl bu imi, trwy dudalennau'r Dinesydd wneud apêl am ddillad dynion ar gyfer y di-gartref sydd yn defnyddio'r lloches nos sydd yn Crichton Street, Caerdydd. Yr oedd prinder dillad yn y lloches, ac wrth i'r tywydd oeri yr oedd yn bwysig fod y dynion yno yn cael eu dilladu'n addas ar gyfer enbydrwydd y gaeaf.

Tybed a fyddech yn caniatau gofod yn y Dinesydd imi unwaith eto, y tro hwn i ddiolch i'r cyfeillion hynny a fu mor garedig ac ymateb i'r apêl. Carwn ddweud ein bod yn ddiolchgar iawn iddynt am eu rhoddion a bod y dynion sydd wedi derbyn y rhoddion hynny yn y lloches yn eu gwerthfawrogi'n fawr iawn.

Bellach, nid oes pryder am y gaeaf sy'n dod. Cafwyd digon i sicrhau na fydd neb yno yn gorfod bod heb ddillad cynnes a glân. Felly, diolch unwaith eto i bawb ohonoch.

Yn gywir,

GERAINT TUDUR.

---

AT GYMRY CAERDYDD,
AC YN ARBENNIG DISGYBLION
A CHYN-DDISGYBLION YR YSGOLION
CYMRAEG

Mae'r trefniadau ar gyfer dathlu Canmlwyddiant Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd yn awr wedi eu cwblhau.

Bydd y dathlaid ar ddydd Sadwrn, Ebrill 4, '987 a dyma drefn y dydd.

Am ddau o'r gloch y pnawn bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn Ysgol Gynradd Parc Ninian i ddadorchuddio'r Plac sy'n cofnodi mai yn yr adeilad hwnnw yr agorwyd Ysgol Gynradd Gymraeg gyntaf Caerdydd ym mis Medi 1949. Wedi'r cyfarfod hwn bydd croeso i bawb ddod i Festri Eglwys y Tabernacl ar yr Hayes am gwpaned o de a chyfle i gael sgwrs.

Fin nos am 7.30 o'r gloch fe drefnir cinio yn Sain Ffagan pryd y byddant yn lansio llyfryn gan y Dr. J. Gwynfor Jones ar hanes Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd yn ystod y can mlynedd diwethaf Pris y Gyfrol yw £2. Y Gwr Gwadd fydd y Dr. Prys Morgan, Golygydd "Transactions" Anrhydeddus Gymdeithas y Cymrodorion.

Mae nifer o'r cyn-ddisgyblion cyntaf (a rhai cyn-ddisgyblion eraill) eisoes wedi cyfrannu tuag at gost y Plac, ynghyd a charedigion eraill, ond y mae cyfle o hyd i'r gweddill gyfrannu os dymunwch wneud hynny. Pob cyfraniad i'w anfon i Drysorydd y Cymrodorion Mr Glyn Owen,
5 Maes yr Awel,
Radyr.

Llywydd: Gethin Griffiths
Ysgrifennydd: Ifor Rees

Annwyl Olygydd,

Un o'r ymgyrchoedd y bûm yn dilyn ei hynt gyda mawr ddiddordeb ar ddalennau'r DINESYDD yn ystod y misoedd diwethaf yw ymgyrch Cell Caerdydd o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg i sicrhau cownteri Cymraeg yn swyddfeydd post a banciau'r Brifddinas. Bu'n ymgyrch galed mae'n amlwg ac arweiniodd i rai llwyddiannau tra chalonogol Ond gall rhai o'r rheiny fod yn llwyddiannau dros dro yn unig. Enillwyd tir eithr, bellach, rhaid cadarnhau'r meddiant arno. Siaradwyr Cymraeg y ddinas yn unig a all ofalu bod hyn yn digwydd.

Wrth gwrs gall fod yn drafferthus i grwydro i ganol y ddinas a mynd heibio i fannau cyfleus yn llawer nes adref ond dyma'r hyn sy'n raid ei wneud, yn enwedig ar y cychwyn fel hyn: ac nid oes raid gwneud hynny bob tro y bydd galw am fynd i'r post neu i'r banc. Yn unig gellir gofalu ymweld yn rheolaidd â'r mannau lle sefydlwyd cownteri Cymraeg. Does bosib nad yw'r Cymry sy'n pryderu am statws yr iaith yn barod i ymgymryd â thipyn o anhwylustod ar ei rhan. Bu trafferth y bobl ifanc a fu'n gyfrifol am yr ymgyrch hon yn sylweddol iawn. Gydag ewyllys da swyddogion rhai o'r sefydliadau sydd bellach wedi penderfynu, neu sydd ar fin penderfynu, sefydlu cownteri Cymraeg, llwyddasant i sicrhau troedle gadarnach i'r Gymraeg nag erioed o'r blaen ym mywyd masnachol ein Prifddinas. Y peth lleiaf a ellir ei wneud bellach yw gofalu nad aiff y gwaith hwn yn ofer; yn hytrach y gwelir y cownteri hyn fel sylfaen i adeiladu arnynt, a'r Gymraeg, trwy hynny, yn dod yn fwyfwy amlwg yn llif y bywyd masnachol hwnnw.

Mae sicrhau llwyddiant cyflawn yr ymgyrch hon yn fater o'r pwysigrwydd mwyaf, nid yn unig i Gaerdydd ond hefyd i weddill ein gwlad. Pan yw'r Brifddinas yn arwain yn llwyddiannus, o berthynas i sicrhau buddiannau y Gymraeg, gall hynny, wedyn, brofi'n arf effeithiol dros ben yn nwylo ymgyrchwyr mewn rhannau eraill o Gymru. Wrth ddefnyddio cownteri Cymraeg Caerdydd byddwch yn hybu, hefyd, ddefnydd masnachol o'r iaith trwy Gymru gyfan.

MEREDYDD EVANS,
Cwmystwyth.

---

Dafydd Iwan
Y Gilfach
9 Heol Edward
Caernarfon

Annwyl Olygydd

Go brin bod angen atgoffa'ch darllenwyr fod y Swyddfa Gymreig ar hyn o bryd yn "gwahodd barn" pobl Cymru ar fater Deddf Iaith Newydd. Ond hyd yn hyn ychydig iawn sydd wedi mynd i'r drafferth i roi pin ar bapur i gefnogi'r alwad am Ddeddf sy'n gwbl anenrheidiol i sicrhau dyfodol yr iaith. Eisoes rhoddwyd sylw mawr i wrthwynebiad ambell i Gyngor Lleol o Went, a dadleuon negyddol y meddyg o Aberystwyth a'i "fudiad" dychmygol.

Ond tra'n bod yn cael ein llywodraethu o Lundain, ni allwn ddisgwyl dim amgenach. Yr hyn sy'n bwysig yn awr yw ein bod yn dangos y gefnogaeth i Ddeddf Iaith ar ei gryfaf - gan gofio bod Mesur Dafydd Wigley eisoes wedi derbyn cefnogaeth gan rai aelodau o bob plaid wleidyddol, a drafft Mesur yr Arglwydd Gwilym Prys Davies yn rhoi dewis ar nifer o bwyntiau a all fod yn y Ddeddf newydd. Gellir cael crynodeb o brif bwyntiau'r ddau fesur, os dymunir, o swyddfa Plaid Cymru, 51 Heol y Gadeirlan/Cathedral Road, Caerdydd CF1 9HD, a byddai hyn yn arbennig o fuddiol i rai sy'n aelodau o bwyllgor, corff neu gymdeithas sydd am drafod y mater.

Mae'n bwysig i unigolion anfon llythyr syml o gefnogaeth, a gorau oll os gellir rhoi enghraifft personol o fethu cael ffurflen yn Gymraeg, neu wasanaeth Cymraeg neu addysg Gymraeg i'w plant, wrth wneud hynny. Ond mae'n bwysig hefyd i roi'r ddadl gadarnhaol y dylai Deddf Iaith roi statws gyflawn i'r Gymraeg, gyda dilysrwydd gyfartal llwyr â'r Saesneg, a hawliau llawn i Gymry sy'n dymuno byw eu bywyd drwy'r Gymraeg. Dylem hefyd gael unrhyw gorff neu gymdeithas yr ydym yn aelodau ohonynt i anfon llythyr o gefnogaeth. I'r rhan helaeth o'r cyrff hyn, ni fyddai Deddf Iaith newydd yn golygu gwario'r un geiniog ychwanegol. I gyrff megis Cynghorau a swyddfeydd sy'n darparu ffurflenni i'r cyhoedd, cymharol fychan fyddai'r gost o'u hargraffu'n ddwy-ieithog, gyda chynllunio a chysodi doeth a gofalus. Mae Mr Ioan Bowen Rees o Gyngor Gwynedd wedi codi pwynt perthnasol iawn serch hynny, sef na ellid disgwyl i bob corff fedru cydymffurfio a holl ofynion Deddf Iaith dros nos, a'r tebyg yw y bydd angen nodi cyfnod i'w galluogi i baratoi ar gyfer hyn yn raddol. Hawdd iawn yw gor-bwysleisio cost ac anhawsterau ar adeg fel yma, yr hyn sydd fwyaf ei angen yw ewyllys nid arian. Ond ai mewn arian y mae mesur gwerth ein hiaith? Ysgrifennwch heddiw, da chi, i Adran Gwasanaethau Addysg 3, Y Swyddfa Gymreig, Parc Cathays, Caerdydd, CF1 3NQ.

Yn gywir

Dafydd Iwan

O.N. Rhaid anfon y llythyrau i'r Swyddfa Gymreig cyn diwedd Mawrth!

**CWMNI DRAMA NEWYDD**

*Mae croeso i bawb boed brofiadol neu ddi - brofiad i ymuno a chwmni drama'r Fuwch Goch sy'n seiliedig yng Nghlwb Ifor Bach. Cynhelir cyfarfodydd/ymarferion bob nos Lun am 7.30. Bwriedir perfformio tair drama fer yn y Clwb ar Ebrill y cyntaf a'r gobaith yw cystadlu yn Eisteddfod Bro Madog.*

*Os ydych am actio neu sgwennu, helpu neu gyfarwyddo, dewch i'r cyfarfodydd.*

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones, 30 Highfields, Llandaf, CF5 2QB. Ffôn: 562816.

CHWEFROR

6ed — Cyfeillion Godre'r Mynydd Du. Swper yn y Mason's Arms, Manor Way am 8 o'r gloch. Tocynnau £8.50. Ffoniwch Gwenda Morgan 693848

9fed — Merched y Wawr, festri capel Minny Street am 7.30. Tom Davies yn sôn am "Ymweliad â Rwsia"

14eg — Ar Log a Dafydd Iwan - Clwb Ifor Bach.

18fed — CEFN Cangen Caerdydd a'r cylch. Cyfarfod Clwb Ifor Bach 7.30

25ain — Festri Capel Salem am 7.30, "Y Gadwyn", sef Cymdeithas y Capel yn cynnal Eisteddfod - cystadlaethau o bob math.

25ain — Clwb Cinio Cymraeg Y Barri a'r Fro. Siaradwr: O.E. Roberts.

27ain — Cwmni argraffu "Honno", Clwb Ifor Bach.

28ain — Cymdeithas y Dysgwyr yn dathlu Gwyl Ddewi. Noson Win a Chaws yn Neuadd y Sgowtiaid, Rhiwbina am 8 o'r gloch. Tocynnau - Ffoniwch 625976.

MAWRTH — Merched y Wawr

1af — Gwasanaeth Dydd Gŵyl Ddewi Cangen De Morgannwg Capel Bethania Clawdd Coch ger Pendeulwyn am wyth. Siaradwraig wâdd - Shân Emlyn.

4ydd — Cymdeithas Minny Street: Cinio Gŵyl Ddewi.

5ed — Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas Radyr yn y clwb golff. Gŵr gwadd - Dafydd Elis Thomas A.S.

6ed a 7fed — Clwb Ifor Bach - Penwythnos y Gêm Rygbi rhwng Cymru a Lloegr:- Geraint Lovegreen a'r Enw Da yn y Lolfa; Steve Eaves, Gwrtheyrn a grwpiau eraill yn y Neuadd; Llwybr Cyhoeddus a Mwg a grwpiau eraill yn y Neuadd.

7fed — Ail Hwrlibwrli Dydd Gŵyl Ddewi yn neuadd y pentre Llanbedr y Fro o 11 tan 1.30 y bore. Cawl, pice bach, cwmni pentre Ffalabalam, Siwpyrted, a Siôn Blewyn Coch. Stondinau amrywiol. Elw at Ysgol Feithrin Clawdd Coch.

12fed — Cylch Cinio Merched Caerdydd. Cyfarfod yng Nghwesty'r Phoenix, Llanisien am 7.30. Siaradwyr - Menna ac Aled Gwyn.

18fed — Cymdeithas Minny Street: Cân a Cherdd gan ddisgyblion Ysgol Rhydfelen.

20fed — Drama "Cris Croes Tân Poeth", Cwmni Theatr Gorllewin Morgannwg yn y Neuadd, Clwb Ifor Bach.
Derec Brown a'r Racaracwyr yn dathlu eu penblwydd yn 5 mlwydd oed yn y Neuadd, Clwb Ifor Bach.

21ain — Meic Stevens - Clwb Ifor Bach.

25ain — Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Siaradwr: Bernard Evans.

# LAWR Y PWLL

Rhai o blant Adran Truro Salem a fu lawr yn y Pwll Mawr, Blaenafon. Dyma'n henwau o'r dde i'r chwith: Gwenno Saunders, Dafydd Meredith, Mererid Michael, Garmon ap Michael, Gwenfair Michael, Justin Williams, Dafydd yr Heliwr, Lynn Mererid Saunders, Dean Hughes, Rhiannon Michael, Ethni Jones.

Fe fentron nhw draw i Flaenafon yng Ngwent ar ddydd Sadwrn cyn y Nadolig wedi gweld hysbyseb yn dweud bod Santa'n mynd i fynd lawr yno'n arbennig i'w croesawu. Chawson nhw mo'u siomi. Gwlad Santa oedd hi mewn gwirionedd - eira ar y bryniau - digon o hwyl wrth wisgo'n addas a mynd lawr y shafft i weld y gŵr mawr a chael anrheg oddi wrtho a chael llun, cawl twym, tatws trwy'r pil, mins peis a thân hyfryd i'w croesawu ar y ffâs a thylwyth teg Santa yno yn gweini arnom.

Gareth Gregory, sy'n hysbys inni i gyd fel cyn-drefnydd yr Urdd a'r Bwrdd Croeso sy'n awr yn un o drefnyddion y Pwll gafodd y syniad yn wreiddiol. Os drefnan nhw rywbeth tebyg y flwyddyn nesa' mae'n syniad gwych ar gyfer gwibdaith y Nadolig.

Cawsom gwmni tâp Hwyl yr Ŵyl y Mudiad Meithrin ar y ffordd a digon o ganu a chwerthin yr holl ffordd yno. Cost ymweliad a Santa ac anrheg a mynd lawr y shafft oedd £1. Pheidiodd y chwerthin a'r canu ddim yr holl ffordd yn ôl. Taith nodedig - gwerth ei wneud eto!



# SIANELIN

Melfed, sidan, cotwm cain - dyna hoff ddefnyddiau un o gynllunwyr ifanc Caerdydd. Gyda nhw mae Siân Elin Jenkins o Rhiwbeina yn creu gwisgoedd gosgeiddig mewn lliwiau llachar cyfoethog. A 'creu' yw'r gair pwysig gan mai ei gwaith hi ei hunan yw'r gwisgoedd o'r dechrau i'r diwedd; mae'n printio'r defnydd, yn cynllunio'r dilledyn a'i batrwm, yn torri ac yn gwnio, a'r cyfan o fewn muriau ei 'stafell wely!

Bu'n ddisgybl yn Ysgolion Bryntaf a Llanharri cyn treulio pedair blynedd yn astudio 'Defnyddiau a Chynllunio' yng Ngholeg Gwyddor Tŷ, Llandâf. Daeth y cwrs i ben llynedd a phenderfynodd roi blwyddyn iddi hun i geisio mentro i fyd ffasiwn. Gyda grant gan yr M.S.C. a gyda chymorth y W.D.A. a'i gwrs 'Be Your Own Boss' aeth ati i gynhyrchu digon o stoc i'w arddangos a'i werthu.

Ac yna daeth wyneb yn wyneb a'r cylch dieflig "rhaid gwneud enw cyn gwerthu a rhaid gwerthu cyn gwneud enw". Hoffai gael ei siop ei hunan ond mae'r costau yn ormod ar hyn o bryd. Byddai'n falch o rannu adeilad gyda chynllunwyr eraill, crefftwyr gemwaith neu ledr o bosibl. Mae'n arbenigo ar greu dillad i'r weithwraig broffesiynol a gwisgoedd min nos fel clogynnau a ffrogiau llaes melfed gydag addurn arian.

Dyddiau prysur yw dyddiau 'Sianelin' gan fod rhaid iddi gyfuno cynhyrchu a gwerthu a phan daw diwrnod waith i ben fydd hi ddim yn segura - fe ddaw'r gweill a'r gwlan i'r golwg a hithau'n troi ati i greu siersi neu gardigan o'i chynllun ei hun. Pob hwyl iddi yn y dyfodol. Pe hoffech weld casgliad 'Sianelin' galwch gysylltu â hi yn ei chartre' - 8 Mavis Grove, Rhiwbeina. Rhif ffon - 624803



Un o wisgoedd Sianelin. Mae'r haen isaf yn las golau sgleiniog a'r haen uchaf yn gotwm tennau, glas golau wedi ei brintio a choch, glas a melyn.



# Colofn Shân Emlyn



Drannoeth y drin! Mae'r gegin ma'n dal i ddrewi o gawl cennin a garlleg - digon i godi pwys ar rywun a deud y gwir! Ia, drannoeth Parti'r Dinesydd ydy hi bora 'ma, ac yn bryd imi ddechrau crynhoi stwff ar gyfer rhifyn Chwefror. Does dim angen pendroni am be i son amdano'r mis yma - rhoi tipyn o hanes neithiwr i chi.

Wrth baratoi ar gyfer y Parti roedd y golofn 'ma ar fy meddwl - a wir 'r'on i'n meddwl mai un digon piwys fydda hi - yn enwedig yn y dyddiau ola. Tocynnau heb eu gwerthu yn dod yn ol - o bencadlysoedd canolfannau teledu, eraill yn gwrthod prynu am na allent fod yn bresennol. Clywed fy hun yn bytheirio yng nghanol y cennin "Does bosib nad all darllenwyr Y Dinesydd dalu £2.50 unwaith y flwyddyn am bapur sy'n cael ei ddosbarthu'n rhad ac am ddim, wedi'r cwbwl dim ond 25c y copi a olyga hynny". O wel, doedd dim diben bod yn flin wrth baratoi ar gyfer y criw ffyddlon y gwyddwn y byddent yno. Canmol fy lwc bod cynifer o'm ffrindiau ac sy'n driw i'r Dinesydd wrthi hi hefyd yn 'i ceginau. Y ffôn yn canu "Sawl cawl wyt ti eisiau, mi wnai bedair torth arlleg, mi ddof i a serviettes, mi ddof i a chanhwyllau....." Galwadau fel 'na'n cynhesu'r galon.

Ddiwrnod y Parti - teimlo fel byddai Dada'n deud "teimlo braidd yn rhynllyd a ffliwllyd", - dyna fyddai cybôl! Sgrealu'r drwy'r bore a gorwedd o flaen y tân i geisio cynhesu drwy'r pnawn, edrych drwy'r ffenestr, a wir, roedd hi'n pluo eira - o Na! Tua'r hanner awr wedi pump 'ma, llwytho'r car, galw am ffrind a'i bara a'i sosban a'i throi hi am Rhiwbeina. Y ffyddloniaid o un i un yn dod yn drwmlwythog a cheisio trawsnewid neuadd foel oer Neuadd y Sgowtiaid yn gyrchfan Parti; cael fy nhemtio i dynnu Jac yr Undeb yno i lawr. Gwell peidio, dyma'r neuadd rata i ni ddod o hyd iddi i'w llogi. Ond yda ni'n gorfod cyfaddawdu yn barhaus! Pawb yn rhynnu ac yn deud "Tyda ni ddim yn gall - tasa ni'n cyfrannu £25 yr un fe allem fod adra yn swatio o flaen y tân". Eto, roedd y gymdeithas a'r chwerthin a'r cwyno yn felys. Gosod byrddau yn ffyddiog i rhyw drigain a chwarae tapiau o Dafydd Iwan a Chôr Meibion Llanelli mewn ymgais i gynhesu'r awyrgylch os nad tymheredd y Neuadd. Ein Trysorydd yn ein hannog i gynnau'r canhwyllau i ychwanegu at wresogi'r lle!

Toc wedi wyth sŵn lleisiau'n cyrraedd a'r byrddau'n araf lenwi, criw bychan o ddysgwyr yn dod i mewn (gyda llaw, dyma garfan o Gymry Caerdydd sy' fwya' brwd 'i cefnogaeth - o ran presenoldeb ac yn ariannol - diolch amdanynt'. Tua hanner awr wedi wyth cynnwrf wrth y drws a phobol yn llifo i mewn. Gadael y cawl i ffrwtian a sgrealu i lwyfan y Neuadd i osod rhagor o fyrddau. Y canhwyllau'n brin, gorfod troi at lwyau plastig - ond pawb yn hwyliog ac amyneddgar.

Awr brysur tu hwnt wedyn i griw'r gegin - gweini'r cawl a'r bara, a'r ddau tu ôl i'r bar yn annog y byddai o fantais i bawb brynu potelaid o win yn hytrach na fesul gwydriad! Pawb yn canmol y cawl ac fel Oliver Twist yn dal eu powlenni am fwy. Ar rybudd byr daeth Islwyn (Gus) Jones i lywio'r noson; croesawyd ef a'i wraig ac fe gyflwynodd gystadleuaeth a baratowyd gan Arfon Williams, un arall o'r ffyddloniaid, ar ein cyfer. Distawodd y clebran, pawb yn myfyrio uwch ei bensal a'i bapur. Cyfle i ferched y gegin fynd a mins peis o gwmpas y byrddau. Yna cystadlaethau gan Cen Williams - oni bai am Cen a'i ddoniau ni fyddai'r Dinesydd mewn bod. Llond bol o chwerthin wrth i rai o aelodau pob bwrdd ymlafnio efo siswrn a phapur i gyflawni gorchestion Cen. Wedi hynny, beirniadaeth orchestol ffug ddifrifol Arfon. Cafwyd brawddegau a limrigau tywyll, astrus, coch a hynod gableddus a'r Neuadd eto'n siglo gan chwerthin.

Ninnau yn y gegin ar ben ein digon a phawb yn dweud wrth ei gilydd "Mae hi'n mynd yn dda, dyma'r gorau eto". Yn ddi-os ffraethineb byrlymus Gus osododd gywair i'r noson, mawr ein diolch iddo. Diolch i'r ffyddloniaid baratodd yr arlwy a diolch i'r pedwar ugain o gefnogwyr fentrodd allan ar noson iasoer i'n cefnogi. Oes wir, mae'n rhaid i'r hen bapur 'ma fyw a ffynnu. Dyna fy hanes i o'r noson, tybed a yw'r rhai a fu yno yn cytuno â mi?


## Ysgrifenyddes/ydd

### Adran Materion Cyfoes

Mae ar Adran Materion Cyfoes HTV angen ysgrifenyddes/ydd i weithio yn y Ganolfan Deledu, Croes Cwrlwys, Caerdydd.

Mae'r swydd hon yn ddelfrydol ar gyfer person sy'n mwynhau gweithio fel rhan o dîm mewn adran brysur.

Dylai'r ymgeiswyr feddu ar safon uchel sgiliau ysgrifenyddol arferol bod yn hyblyg, a gallu gweithio yn gyflym dan bwysau pan fo angen. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl yn angenrheidiol.

Cyflog, yn cynnwys atodiadau lleol, £7,386 y flwyddyn.

Dylai'r ymgeiswyr cymwys ysgrifennu am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig ynghyd â chyfeirnod DI/578 at y Rheolwr Personel, HTV Cyf, Y Ganolfan Deledu, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6XJ.

*Yr ydym yn gyflogwr cyfle cyfartal, ac yn croesawu pob cais heb ystyried na rhyw, cefndir ethnig, anabledd na statws priodasol.*

HTV

# MYND FEL BOM?

TAITH BEICIO WYTHNOS CYMRU DDI-NIWCLIAR

Y mae dau o aelodau CND Cymru yn bwriadu teithio ar hyd arfordir Cymru ar gefn beiciau yn ystod mis Chwefror. Yn ystod y daith gobeithiant dderbyn cefnogaeth ariannol trwy gael eu noddi ac hefyd fanteisio ar y cyfle i ledaenu'r neges trwy gynnal cyfarfodydd a sesiynau trafod.

Bydd y daith yn dechrau ar y 13 eg o Chwefror ym Mreudeth a bydd y ddau yn ymlwybro ar hyd arfordir y gorllewin, i'r gogledd ac i lawr ar hyd ffin ddwyreiniol Cymru, er mwyn dychwelyd i Freudeth ar hyd arfordir y De erbyn yr 28ain o Chwefror.

Ar yr 28ain o Chwefror cynhelir Rali yn Nhŷ Ddewi a drefnir gan CND Cristnogol Dyfed. Trefnir Gwasanaeth am 11.00 o'r gloch, Rali am 1.00 o'r gloch a Chyfnod o Wyliadwriaeth ym Mreudeth rhwng 3 a 4 o'r gloch. Ymhlith y siaradwyr bydd y Dr. Meredydd Evans, yr Athro D.P. Davies, y Parch D.R. Thomas, Sian ap Gwynfor ac Olwen Davies. Bydd lle canolog yn y gweithgareddau i gerddoriaeth a chân - ac yn ystod y Rali ceir y cyfle cyntaf i wrando ar gân sydd wedi ei chyfansoddi yn arbennig ar gyfer y mudiad heddwch gan Delwyn Sion.



Cefnogwch Morgan Parry a Martin Ashby ar eu taith beicio o gwmpas Cymru. Y mae Cymorth Cristnogol a War on Want wedi cydweithredu yn y trefniadau ar gyfer y daith, a bydd yr arian a gesglir ar y daith yn cael ei rannu gyda'r ddau Fudiad yma.

Y mae Morgan a Martin wedi ymdynghedu i gyflawni'r daith beth bynnag fo'r tywydd. Manteisiwn ar y cyfle i gefnogi eu menter a lledaenu'r neges. Mae Cymru yn wlad ddi-niwcliar; mae angen byd ddi-niwcliar. Er mwyn cyflawni hynny y mae angen mudiad heddwch sy'n weithredol ac sy'n denu cefnogaeth pobl Cymru. Dewch i'r cyfarfodydd, cefnogwch y daith, noddwch Morgan a Martin, uniaethwch â'r Mudiad Heddwch yng Nghymru.

## ADFERIAD AC ANRHEG

Roedd bore Sul, Ionawr 4ydd yn fore arbennig o braf yng Nghapel Salem, Canton; gwelwyd un o'r blaenoriaid, Moelwyn Preece, yn ei ol unwaith eto ar ol dioddef damwain ddifrifol. Cafodd groeso mawr ac yna estynnwyd croeso i'w fab, Alun, a'i deulu ar ymweliad o Awstralia.

(Yn ddiweddar penodwyd Alun yn aelod llawn-amser o Gomisiwn Ad-drefnu'r Gyfraith yn Queensland. Llongyfarchiadau'r Dinesydd iddo fo.)

Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd anrheg i Gapel Salem gan Alun ar ran Capel Cymraeg Blackstone, Brisbane, sef y llwy arian a'r gwydr a gynlluniwyd i ddathlu canmlwyddiant yr achos yno. Sefydlwyd y Capel yn 1883 ar gyfer y Cymru a ymfudodd i Awstralia i weithio yn y pyllau glo. Heddiw mae tua 20% o boblogaeth yr ardal o dras Cymreig er bod y rhan fwyaf wedi eu geni yn Awstralia. Mae mynd ar y Gymanfa Ganu flynyddol gyda chymaint a phum cant yn y gynulleidfa.

Ar ran Capel Salem rhoddwyd y llyfr 'Eglwysi Cymru' i Alun i'w gyflwyno i'r Addoldy yn Brisbane.

Pob hwyl i Alun a'r teulu sy' bellach wedi cychwyn ar eu taith yn ol i Awstralia. Diolch ym fawr i Mr a Mrs Moelwyn Preece am eu cyfraniad i'r Dinesydd. Mae'n nhw'n dymuno diolch i bawb a yrrodd neges o wellhad buan i Moelwyn wedi ei ddamwain ddiwedd Medi.

Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran yn y cyngerdd 'Ser yn Salem' ar Ragfyr 6ed, ac i bawb a ddaeth yno i fwynhau rhaglen arbennig o dda a chefnogi achos da. Llwyddwyd i godi £300 y noson honno ar gyfer y rhai sy'n dioddef yng ngwledydd y trydydd byd.

## Llongyfarchiadau

Bydd o ddiddordeb i ddarllenwyr Y Dinesydd glywed bod un o'i chefnogwyr sydd wedi gadael Caerdydd wedi cydio yng ngwaith papur bro arall. Penodwyd Manon Wyn Griffiths yn Olygydd Papur Menai. Ni fydd yn syndodd i neb wybod bod y ffôn yn canu'n aml a bod Cadeirydd Y Dinesydd a Golygydd Papur Menai yn cyfnewid syniadau a thrafod problemau.

## Trysorydd Newydd Y Dinesydd

Y mae Richard Hall Williams wedi derbyn y swydd o fod yn drysorydd y Dinesydd. O'r cychwyn cynta breintiwyd y papur o gael trysoryddion diwyd sydd er pob anhawster wedi cadw pen y papur uwch ben y dŵr. Eisoes mae Richard yn cadw llygaid barcud ar ein gwariant. Teimlwn ein bod mewn dwylo diogel a gall gwedd gweddill gweithwyr Y Dinesydd yrru 'mlaen a gwaith y papur gan wybod y bydd Richard yn gofalu nad awn dros ben llestri. Croeso Richard, a diolch am ymgymryd â swydd digon anodd a phroblemus.

# BWTH RUTH



Wel helo a pha hwyl sydd - tybed ydan ni wedi gweld diwedd yr eira a'r panic yna sy'n dod gyda'r bygythiad lleia - boed o'n awyr lwyd neu'n dymheredd mwyn cyn-amserol.

Mae ngolygon i yn gorfod troi'r Gwanwyn yma at liwio ambell stafell - galwch o be fynnoch chi - paentio, lliwio, sbring clinio neu ffreshnio. Mae'r cyfan yn dipyn o faich - bodio tudalennau degau o gylchgronau i chwilio am syniadau, crwydro o siop i siop yn byseddu'r llyfrau sy'n llawn papurau wal a syniadau eto fyth am liwiau ffasiynnol; penderfynu ar gynllun ag yna'r prynu, y talu sy'n boenus ond ow, dyma'r pleser yn dechre.

Cuddio am ddiwrnod neu ddau - wrth i rywun fynd ati i symud popeth posib allan o'r stafell sydd dan sylw. Gan mai fflat cymharol newydd sydd yma, dwi'n cael gwenud y joban braf 'na o lenwi craciau (chwarae plant go iawn), sbwng tamp a polyfila a dyna fi'n iawn am awr neu ddwy. Paent 'gloss' sgleiniog wedyn ar y pren a gweld ol y gwaith hwnnw'n fuan iawn. Cric go lew yn y gwddw ar ol rhoi cot o 'emulsion' i'r nenfwd a chael trafferth braidd wrth drio paentio dros y diferion o bast tomato sy'n dal ar do'r gegin wedi i mi gael damwain tua deunaw mis yn ol hefo un o'r tuniau pitw bach trafferthus 'na.

Penderfynu rhoi papur wal ar un wal ag o! o! o! y pleser o gymysgu past mewn hen bwced a phastio'r stribedi hir o bapur wal a hongian pob un yn syth wrth lein blwm - a'r job wedi gorffen; mae popeth yn edrych yn gret.

Dyna fi wedi breuddwydio am y joban sydd o 'mlaen i. "Deuparth y gwaith ei ddechre" medde'r hen air - erbyn mis nesa mi fydd y gegin wedi'i gwneud dwi'n gobeithio a finnau hanner ffordd at wneud stafell eto fyth - mewn gobaith. Hwyl.

O.N. Os ydw i wedi sbarduno rhywun ar wahan i mi fy hun, beth am air o brofiad neu air o gyngor.


CANOLFAN YR URDD
HEOL CONWY
TREGANNA
CAERDYDD

TAFLEN

LLYFRAU
RECORDIAU
CASETIAU
CARDIAU



Ar Agor
10.00 – 7.00 (5.00 Sad)
Ffoniwch Eich Archeb
CAERDYDD 27530

# EISTEDDFOD CASNEWYDD

A oes man mwy delfrydol fel ynys bell o bwysau Eisteddfodol na pharti Ysgol Sul y Tabernacl ar ddechrau'r flwyddyn? Dyw'r plant yn poeni'r un iot am gyllid, rhestr testunau, pwyllgor gwaith a'r cant a mil o fanion sy'n ffurfio un 'jig-saw' fawr a gwbwlheir yn wythnos gyntaf Awst. Iddyn nhw yr un maes a welir ym Mro Madog ag yn Abergwaun, yng Nghasnewydd ac yng Nghwm Rhymni (1990). Ond fe lwyddodd Alma Carter i ddinistrio'r gwynfyd pan ddaeth i gasglu'r mab, Rhys, o'r parti. "Blwyddyn Newydd Dda - a chofia mai dyma flwyddyn y Cyhoeddi" oedd ei chyfarchiad a'i llygaid yn dawnsio mewn direidi. Fe adduned Flwyddyn Newydd am 1988 fydd cadw draw o gyfarchion Alma cyhyd ag sydd bosibl.

Sicrhau'r Rhestr Testunau fu'r gwaith mawr hyd at y Nadolig a bellach mae'r gwaith yna ar ben. Nawr ym mis Chwefror fe fydd panelau arbenigol y Cyngor yn rhoi sel eu bendith (gobeithio) ar ddewis a chwaeth pobl Casnewydd. Pe bawn yn meddwl am funud y byddai gan ddarllenwyr Y Dinesydd ddiddordeb, fe fyddwn yn rhoi rhagflas o'n gwreiddioldeb megis Côr Cerdd Dant Corws Ddwbwl (wyth llais); Geiriau - 'Dinistr Jerusalem' (Eben Fardd); Alaw - Dies Irae allan o Requiem Verdi i gyfeiliant telynt, a thrwmped a drwm, ond pwy fyddai am wybod ein cyfrinachau ymlaen llaw?

Mae gweithgareddau niferus yn digwydd er budd yr Eisteddfod. Ychydig ddyddiau yn ol cynhaliwyd derbynwest i Siambr Fasnach Casnewydd yn y gobaith y bydd y cysylltiadau a wnaed yn dwyn cyfraniadau sylweddol i goffrau'r Gronfa. I mi, un o uchelfannau gwyliau'r Nadolig oedd galw i mewn i ddiwrnod o gerddoriaeth noddedig a drefnwyd gan ieuenctid Ebeneser, Eglwys Bresbyteraidd Casnewydd. Mae'r ieuenctid yn haeddu eu henwi - Andrew Bishop, Martin Jones, Richard Worthington, Catrin Jones, Rhian Loudon a Gareth Loudon, a phe bawn yn rhestru'r holl offerynnau a ddefnyddiwyd fe fyddai'r ysgrif yma yn darllen fel catalog Boosey a Hawkes. Trwy eu diwydrwydd fe ychwanegwyd dros £200 i Gronfa yr Eisteddfod, a phethau fel hyn sy'n ysgogi John Hughes (Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith) a'i gydweithwyr i gadw brwdfrydedd pan fo galw i droi allan noson ar ôl noson.

Rwyf wedi dweud o'r blaen mai cyfrwng Cymreigrwydd yw dyfodiad Eisteddfod i fro ac nid rhywbeth sy'n digwydd ac yn darfod. Tybed a'i dyfodiad yr Eisteddfod sydd wedi symbylu'r Tabernacl i gydnabod bodolaeth Casnewydd? Yng nghyfundrefn weinyddol yr Eglwys, rhennir yr aelodau i ddosbarthiadau bro, ac ar hyd y blynyddoedd fe fyddai'r aelodau a drigai yng Nghasnewydd yn nosbarth y trefedigaethau gyda'r aelodau ar wasgar sy'n byw mewn mannau pellenig fel Harrow, Wrexham a Hwlffordd. Eleni fe benderfynodd y Tabernacl roi dosbarth eu hunain i'r aelodau sy'n byw yng Nghasnewydd. Dylanwad yr Eisteddfod bellach wedi cyrraedd Caerdydd - dyna brêc thrŵ myn brain!

Gwynn Tudno

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU


MEDAL SYR THOMAS PARRY-WILLIAMS

ER CLOD, 1987

Rhoddir y fedal uchod i gydnabod ac anrhydeddu gwasanaeth gwirfoddol a nodedig a gyflawnwyd dros nifer helaeth o flynyddoedd ymhlith pobl ifainc mewn ardal neu gymdogaeth, yn arbennig trwy weithgareddau sy'n hyrwyddo dibenion yr Eisteddfod Genedlaethol.

Gwahoddir enwebiadau ar gyfer y fedal sydd i'w chyflwyno yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 1987.

Y mae ffurflenni enwebu a manylion pellach i'w cael oddi wrth y Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol, 10, Park Grove, Caerdydd. CF1 3RN (Ffôn: (0222) 394120) a dylid eu dychwelyd erbyn Ionawr 31ain 1987.



## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

## MERTHYR TUDFUL A'R CYLCH

10 West Grove
MERTHYR TUDFUL
CF47 8HJ

Tachwedd 1987

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU - MERTHYR TUDFUL 1987

Annwyl Syr/Madam

Fel y gwyddoch, cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn ein Bwrdeisdref enwog, am y tro cyntaf ym Mai (Wythnos y Sulgwyn) 1987.

Am bum niwrnod (Mawrth 26ain - Sadwrn 30ain) bydd rhyw 12 - 15,000 o ymwelwyr yn teithio'n ddyddiol i Ferthyr i ymweld â'r Eisteddfod. Bydd y rhan fwyaf o'r ymwelwyr yn blant ifanc gyda'u rhieni a'u hathrawon.

Cynhelir rhagbrofion bob bore yn Ysgol Uwchradd Penydre, tra bydd y cystadlaethau terfynol yn cael eu cynnal yn ystod y prynhawn a gyda'r hwyr, ym Mhafiliwn yr Eisteddfod ym Mharc Cyfarthfa.

Y mae'n bwysig fod Merthyr, cymuned sydd yn adnabyddus trwy Gymru, yn dangos delwedd gadarn, unedig i gynrychiolwyr BBC Cymru, HTV, S4C a'r miloedd bydd yn ymweld â'r dref yn ystod yr wythnos. Felly, penderfynom anfon y llythyr cyntaf hwn, i gymaint o gymdeithasau, clybiau, ysgolion, capeli, eglwysi, ayb a phosib.

Y mae'n bwysig dros ben i ni gael nifer helaeth o stiwardiaid i sicrhau trefniant llwyddiannus i'r Eisteddfod.

'Rydym yn apelio at eich aelodau/cydweithwyr ayb, i'n cynorthwyo, wrth roi eu help i ni am 'sesiwn' o ddwy awr. (Byddwn yn croesawu un sesiwn o ddwy awr, ond byddwn yn falch i dderbyn help ychwanegol ar ddyddiau eraill).

Gaf i ofyn i chwi ddod â'r cais hwn at sylw eich aelodau/cydweithwyr? Yn ystod misoedd cynnar y flwyddyn newydd byddwn yn danfon llythyr arall yn gofyn am:

- i Enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn (os bosibl) cefnogwyr pendant.
- ii Dydd (neu ddyddiau) maent yn barod i'n cynorthwyo.
- iii Amser y dydd (neu ddyddiau) sydd yn gyfleus iddynt.

'Rydym yn hyderus y bydd llawer o bobl o bob rhan y Fwrdeisdref yn uno, ac yn cynorthwyo i sicrhau stiwardio llwyddiannus yr Eisteddfod.

Y mae Bwrdeisdref Merthyr Tudful yn haeddu cefnogaeth o'r radd flaenaf i'r ddigwyddiad cenedlaethol hwn.


A wnewch chwi ein helpu i hyrwyddo'r Fwrdeisdref led-led Cymru?

Diolch yn fawr.

Yn ddiffuant

W Mansel Richards
(Ysgrifennydd - Pwyllgor Stiwardio a Thrafnidiaeth yr Eisteddfod)


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath,
CAERDYDD.
Ffôn 484816
***cyfeiriad newydd**



# LLYFRAU

POBL PANTYCELYN
gan Derec Llwyd Morgan
Gomer, £6.95

Llynedd, mi fum yn trafod rhai o lyfrau gosod Safon-A Cymraeg gyda dysgwyr o ysgolion o bob cwr o'r wlad. Roedd nifer o'r llyfrau â chefndir Methodistaidd gapelol iddyn nhw. Er mawr siom, os nad mawr syndod, cefais nad oedd gan y mwyafrif llethol unrhyw wybodaeth am y fath gefndir, heb son am adnabyddiaeth ohono. Mae'n amheus gen i a ydy'r sefyllfa fawr gwell ymysg y Cymry Cymraeg ifainc.

Mae'n ymddangos, yn ôl awdur y gyfrol hon hefyd, ein bod ni heddiw'n dystion i 'ben draw'r chwyldro hwnnw' sef 'y Diwygiad Mawr Methodistaidd'. Bydd i Gymru oroesi'r fath ddatgymaliad yn ei hanes yn dipyn o gamp.

Er fod i Fethodistiaeth Calfinaidd agweddau nad ydyn nhw'n dderbyniol i lawer ohonon ni, dim ond ynfytyn - neu anwybodusyn - wadai werth y mudiad i fywyd crefyddol a diwylliannol ein cenedl. Ond, erbyn hyn, mae yna lu o anwybodusion o'r fath. Efallai fod gan y rheini ryw esgus gynt, gan nad oedd hi'n hawdd darllen am y Diwygiad Methodistaidd a'i dwf, dylanwad a dirywiad heb bori fan hyn a fan draw, yn aml mewn cyfrolau trymion. Bellach, does yna ddim esgus, gan fod cyfrol 'Y Diwygiad Mawr' a'r un yma gan yr awdur ar gael, ac mor ddarllenadwy.

Mae hon yn ein harwain o Langeitho wenfflam, drwy aml i ddadl a datblygiad, i anterth y mudiad dan Thomas Charles a Thomas Jones Dinbych, hyd at ei ddirywiad o amser Daniel Owen ymlaen, gan orffen, fel y dechreuwyd, ym mro mabwysiedig yr awdur, Môn. A gwneir hyn i gyd drwy'n cyflwyno i bobl dychmygol neu, yn amlach na pheidio, yn rhai go iawn. Mae Peter Williams, Ann Griffiths yn cael pennod yr un fel y caiff y pab o'r Bala, a hanes yr achos yn Niwbwrch.

Er mwyn deall ein hanes ers dros ddwy ganrif, a gweld ar ba sail y medrir cynllunio'n dyfodol, mae llyfrau Derec ar Fethodistiaeth yn anhepgor, a'r gyfrol hon ydy'r un mwyaf hawdd i'w ddarllen.

Harri Pritchard Jones


AR WERTH

Telyn Salvi-Electra - Cyflwr gwych - Seinfwrdd o aur addurniedig a cholofn euraid.

Bargen am £9,200.

Ffôn: 0443-402178


DWY GYFROL DEG A HYFRYD

Un o ryfeddodau'r pum mlynedd diwethaf hyn fu gweithgarwch Cyhoeddiadau Barddas, gwasg sydd erbyn hyn yn anelu'n dalog at gyhoeddi dwsin a mwy o gyfrolau bob blwyddyn, a phob un o'r rheiny naill ai yn gyfrol o gerddi neu yn ymwneud â barddoniaeth mewn rhyw fodd neu gilydd. Mae'r beirdd yn barod iawn i ymddiried eu gwaith iddi gan wybod y bydd gofal y Prifardd Alan Llwyd yn drylwyr ac y gwêl eu gwaith olau dydd heb frycheuyn arno a hynny rhwng cloriau celyd deniadol. Felly'r ddwy gyfrol y rhoddwyd arnaf eu trafod; pleser yn wir yw edrych arnynt a'u bodio.

Er bod ei hawdur bron cyn hyned â'r ganrif, gobeithio yr wyf mai amrhiodol yw teitl cyfrol y Prifardd Mathonwy oblegid deil canu'r gwron gwerniol hwn o Gwm Silyn yn Eryri yn loyw afaelgar heb unrhyw astrusi yn ei gylch. Cân ar y mesurau caeth yn amlach na pheidio ac mae ôl hir ymarfer ar ei grefft. Ar dro ceir gem o ddweud, megis

Ni bu eira a barodd
Na heth hir erioed na thodd

cwpled o'r awdl am Carneddog a Catrin yn gorfod gadael Eryri am Hinckley ddiawen, awdl a fu'n uchel yng nghystadleuaeth Cadair y Rhyl. Bu llawer o gerddi hwy y gyfrol ymgiprys am y Gadair Genedlaethol ond symbylwyd amryw byd o'r cerddi byrion, englynion gan mwyaf, gan ymadawiad cyfeillion. Y mae'r rheiny hefyd yn gabol eu crefft ac mae'n dda iawn cael y cyfan ynghyd rhwng deuglawr.

Bardd cenhedlaeth iau yw'r Prifardd Meirion Evans, brodor o'r Felindre ger Abertawe a gweinidog Annibynnol ym Mhenbre ers ugain mlynedd bellach. Cadwodd ei ddawn dan gochl yn hir oblegid, ac yntau wedi troi'r hanner cant, dyma ei gyfrol gyntaf o gerddi. Ceir ynddi, yn ôl y disgwyl, ddilyniant Coron Caernarfon, ond dilyniant a fu yn Abergwaun a sawl pryddest yn ogystal. Mae ei ganu'n fwy ymenyddol a chyfeiriadol nag eiddo Mathonwy, yn ddychanus ar dro ac yn ddwys bryd arall, ond mae ei awen yn sicr o hyd a rhythmau ei linellau yn boddio'r glust. Ymdeimlir yn gyson â gonestrwydd ei ganu wrth iddo chwilio ei berfedd ei hun ac wrth iddo boeni am dynged ei bobl y dwthwn dreng hwn. Trawiadol, a nodweddiadol ddigon, yw'r gerdd Credaf, cerdd nad yw Adlais Gwenalltaidd ei theitl yn ddamweiniol debygaf. Ynddi mynn ymwrthod 'a'r Crist pansi/ sy'n crogi'n uchel / ar furiau festruoedd y côf', ymwrthod wedyn a 'llun y cryman cydwladol, miniog' a chael hyd o'r diwedd i'r 'darlun gwreiddiol / o'r Artisan o Nasareth' a chanfod 'y breichiau tragwyddol / yn flew a chyhyrau i gyd / a'r dwylo fel rhofiau / yn chwipio syndod a senedd'.

Oni allwn ddisgwyl, yn ôl y drefn ysywaeth, fawr rhagor o ganu Mathonwy Hughes, mawr obeithiwn y cawn glywed llais Meirion Evans drachefn a thrachefn.

T.A.W.

* Cerddi'r Machlud, Mathonwy Hughes, Cyhoeddiadau Barddas 45tt; £2.50

Y Corn Olew, Meirion Evans, Cyhoeddiadau Barddas 55tt; £3.50

SEIRI CENEDL
gan Gwynfor Evans
Pris £9.50

Dyma lyfr diddorol ddylai fod ar bob aelwyd. Ceir ynddo erthygl ar 65 o'n cewri. Llyfr yw i droi ato bob hyn a hyn am wybodaeth am rai o gewri'r genedl. Yn naturiol adlewyrchir diddordebau'r awdur - cenedlaetholwyr at 'i gilydd a bortreadir - pob un ohonynt yn gwbl haeddianol. Rhaid nodi mai dim ond pedair merch a gynhwyswyd. Gallwn feddwl am eraill a haeddai le mewn cyfrol o'r fath. Ni chynhwyswyd Jennie Eirian yn y gyfrol er enghraifft. Ond dyna hanes sawl gyfrol yn ddiweddar, ac mae'n debyg bod gan pob awdur yr hawl i ddethol ei hun gan wybod y bydd gan y darllenydd bersonoliaethau eraill teilwng y carent eu cynnwys.

Y mae'r gyfrol hon yn hawdd ei ddarllen a'r diwyg yn raenus. Gall plant ysgol fwynhau'r gyfrol hon a chael gwybodaeth gryno am orffennol ein cenedl, yn ogystal â ninnau'r to hyn na chafodd nemor ddim o hanes Cymru yn ein haddysg.

HYD DDYDD BUDDUGOLIAETH



Y mae COR COCHION CAERDYDD, yr unig gôr sosialaidd yng Nghymru newydd ryddhau ei ail gaset, HYD DDYDD BUDDUGOLIAETH. Y mae'n cynnwys nifer o ganeuon, yn eu plith, nifer o ganeuon rhyddid o Dde Affrica, caneuon o ryfel cartref Sbaen a ddechreuodd 50 mlynedd yn ôl i eleni, a phenillion Cymraeg a ganwyd i groesawu'r Archesgob Desmond Tutu i Ferthyr Tudful ychydig fisoedd yn ôl. Ceir manylion am gynnwys y caset yn y daflen amgaeedig.

Rhennir yr elw o'r caset hwn rhwng Ymgyrch Gefnogi Nicaragua a'r Mudiad Gwrth-Apartheid. Gellir prynu copiau am £4 yr un (+ 50c ar gyfer cludiant) oddi wrth Ginny Blakey, 36 Glenroy Street, Y Rhath, Caerdydd (Ffôn 486877). Ceir gwybodaeth bellach am y caset ac am y côr oddi wrth y cyd-Ysgrifennydd, Diana Bianchi 15 Rawden Place, Riverside, Caerdydd (Ffôn 374334); ceir copiau o'r caset cyntaf, DROS RYDDID DAEAR, o'r un cyfeiriad am £3 (+ 50c ar gyfer cludiant)

Eisteddfod Genedlaethol Bro Madog 1987

--------

CYFIAWNDER I'R DYSGWYR

Er mwyn sicrhau bod pob safon o ddysgwr yn gallu cystadlu o fewn ei brofiad a'i wybodaeth o'r iaith, penderfynodd Pwyllgor y Dysgwyr, Eisteddfod Bro Madog, gymryd y cam (dadleuol, o bosibl) o safoni dysgwyr. Teimlai rhai nad oedd diben iddynt gystadlu yn erbyn rhai rhugl. Mewn ymgais i unioni'r cam, penderfynwyd graddoli gwaith llwyfan ac ysgrifenedig fel â ganlyn -

Safon 1: Dysgwyr nad ydynt wedi derbyn mwy na 50 o oriau o hyfforddiant swyddogol mewn dosbarthiadau ail iaith

Safon 2: Dysgwyr nad ydynt wedi derbyn mwy na 100 o oriau o hyfforddiant swyddogol mewn dosbarthiadau ail iaith.

Safon 3: Dysgwyr a fagwyd ar aelwyd ddi-Gymraeg ac sydd yn dysgu neu wedi dysgu'r Gymraeg fel ail iaith mewn ysgol neu goleg neu drwy ddilyn cwrs arbennig.

Hyderir y bydd y dysgwyr yn fwy parod i ymgeisio o dan yr amodau newydd hyn. Dyma rai cystadlaethau a restrir -

Deialog - Cystadleuaeth ar gyfer dysgwyr Safon 2. 'Mewn Ystafell Aros'. Caniateir rhwng 3 a 5 munud. Gwobr: £30 (Rhodd Cangen Nantcol o Ferched y Wawr)

Monolog - Cystadleuaeth ar gyfer dysgwyr Safon 3. Person yn son am ei hoff anifail neu ddigwyddiad cyffrous. Heb fod yn hwy na 4 munud. Gwobr: £25 (Rhodd Miss Enid Owen, Blaenddol, Porthmadog)

Noson Lawen - Cystadleuaeth agored ar gyfer pob safon o ddysgwyr. Heb fod yn hwy nag ugain munud. Gwobr: 1. £70; 2. £40; 3. £20 (Y gwobrau o Gronfa Goffa Ffrances Tecwyn Lloyd)

Disgrifiad o lun - Safon 1 Dylid anfon copi o'r llun gyda'r gwaith ysgrifenedig. Dim mwy na 150 o eiriau. Gwobr: £15 (Rhodd teulu'r Perthi, Cricieth)

Dyddiadur Wythnos - Safon 2 Gwir neu ddychmygol. 200 - 250 o eiriau. Gwobr: £20 (Cronfa Goffa Frances Tecwyn Lloyd)

Taflen Newyddion - Safon 3 neu Gylchlythyr i ddysgwyr yr ardal. Gwaith grŵp neu unigolyn. Gwobr: £30 (Rhodd Cymdeithas Cymry Dineidyn)

Gwyddys hefyd am yr angen am fwy o adnoddau ar gyfer dysgwyr Felly cynhwysir cystadlaethau paratoi deunydd a chynigir gwobrau hael iawn,

e.e. Nofel seiliedig ar unrhyw ddigwyddiad yn hanes Cymru Dylid nodi ar gyfer pa safon o ddysgwyr y darperir y gwaith. Gwobr: £150 (£75 Cronfa Goffa Frances Tecwyn Lloyd; £75 Rhodd Cylch Llenyddol Llŷn)

Cyfres o 6 o storiau serch gwreiddiol Addas ar gyfer Safon 2 Gwobr: £60 (Rhodd Cymdeithas y Dysgwyr, Blaenau Ffestiniog)

Gellir prynu copiau cyflawn o'r Rhestr Testunau o Swyddfa'r Eisteddfod (Pris £2.00 yn cynnwys cludiant).

Bwriwch ati y Gaeaf hwn!





**DINOSORIAID**
**O CHINA**
20 RHAGFYR 1986 – 10 EBRILL 1988

Y Prif Adeilad, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd
Ar agor: Mawrth – Sadwrn 10.00 - 5.00; Sul 2.30 - 5.00
Mynediad: oedolion £1.50; plant a phensiynwyr 80c



**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**


Dylid anfon unrhyw ddeunydd ar gyfer rhifyn Mawrth at: Y Dinesydd, 2 Crystal Glen, Y Waun, Caerdydd (Tel. 753625) erbyn Chwefror 13eg.

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

PINACLAU PARTI'R DINESYDD

LIMERIG -
Aeth Bethan ar daith i Ibiza
Ac yfed galwyni o'r gwin 'na
Roedd am bacio dŵr
Ond dwedodd y gŵr
Wel dôs di i'r Eidal a Pitha!

BRAWDDEG o'r gair 'Nadolig'-
Nawr am damaid o lamb i ginio
Neidiais a dawnsiais o Lŷn
i Gaerdydd.
Naid a diawl o lam i'r gwely.
Nath Arfon diawl o lot i
ginio.
Neidiodd Anti Dora o Lunden
i Gaerdydd.
Nid âr Dinesydd o lewyrch i
Golled.

## CEFN - CAERDYDD A'R CYLCH

Cynhaliwyd cyfarfod Cangen Caerdydd a'r Cylch o CEFN yng Nghlwb Ifor Bach am 7.30 ar y 7fed o Ionawr, 1987.

Fel y gŵyr eich darllenwyr erbyn hyn, y mae'r Swyddfa Gymreig wedi ymgynghori â Chyrff Cyhoeddus ledled Cymru i gael eu barn ynglŷn â mesur newydd i'r Iaith Gymraeg.

Yn ddiweddar penderfynodd aelodau o Gangen Caerdydd a'r Cylch o'r Mudiad CEFN i gysylltu â'r Cyrff hyn trwy gylchlythyr.

Y mae'r Swyddfa Gymreig yn disgwyl cael pob tystiolaeth i mewn gan unigolion a chan Gyrff Cyhoeddus a Mudiadau yng Nghymru erbyn 31 Mawrth, 1987.

Golyga hyn lawer o waith i aelodau CEFN i'w wneud mewn byr amser a byddai unrhyw gynnig o help gyda'r llythyrau yn werthfawr iawn.

Teimlodd pawb oedd yn bresennol yn y cyfarfod bod angen i ni glywed gan bawb sy'n byw yng Nghaerdydd a'r Cylch y mae arnynt eisiau sicrhau rhyddid iaith i siaradwyr iaith frodorol Cymru trwy ennill cefnogaeth y rhai sydd â'r pwer i ddeddfu drosti.

A wnewch chwi gysylltu â ni i ddangos eich cefnogaeth neu i gynnig eich help cyn gynted ag y bo modd trwy ysgrifennu at y cyfeiriad isod -
J.A. Jones,
10 Kyle Crescent,
Yr Eglwysnewydd,
CAERDYDD. CF4 1SW
neu ffonio (0222) 625064.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 18 Chwefror, 1987 am 7.30 yng Nghlwb Ifor Bach, Caerdydd. Croeso cynnes i bawb.

## LLYGAID Y DDRAIG

Erbyn hyn y mae darllenwyr Y Dinesydd wedi cael cyfle i weld penodau cyntaf drama gyfres newydd o weithdy'r BBC sef 'Llygain y Ddraig'. Diddorol i ni yw gweld Mali Tudno, disgybl yn ysgol Coed y Gof yn cymryd un o'r prif rannau. Yn y gyfres hefyd fe welir Lisabeth Miles, Iestyn Garlick, Glan Davies, Daniel Evans sy'n ddisgybl yn Ysgol Rhydfelen a Hugh Thomas. Cynhyrchydd y gyfres yw Allan Cook. Awdur y gyfres yw Dyfed Glyn.

Yn y Gymraeg y darlledir y gyfres yn gyntaf, prawf o'i llwyddiant yw y darlledir fersiwn Saesneg ohoni ar BBC 1 yn ystod Ebrill a Mai. Mae'r cynhyrchiad hwn yn soffistigiedig a'r ddrama ei hun yn llawn cyffro a dirgelwch. Gwelwn ffilmio celfydd a'r golygfeydd yn ein cipio o Fannau Brycheiniog a'r tren bach i hud a lledrith Hong Kong. Y mae'r gerddoriaeth hefyd yn ychwanegu at densiwn y stori. Dyma'r fath o ffilm fydd yn apelio at wylwyr ifanc S4C. Yn fuan cyhoeddir y stori yn Gymraeg ac yn Saesneg. Wedi gweld y gyfres bydd plant Cymru'n awchu am ail fyw'r profiad trwy ddarllen yr hanes.

# MYRFYN OWEN

Cynhyrchydd Drama BBC Cymru

Y chwertniniad, dyna'r côf amlycaf o Myrfyn. Prin fod na fore yn yr Adran, na chlywn ei ebychiadau heintus yn cario lawr y coridor. Mary David, yn reit siwr, ei ysgrifenyddes hynod ac annwyl, wedi dweud rhyw jôc neu gilydd.

Mae'r stafell o le daeth y synau hapus bellach yn ddistaw. Dim rhagor o chwerthin a dim rhagor chwaith o bethau eraill pwysig - y feirniadaeth lem, dreiddgar o sgriptiau; y gonestrwydd am gynnyrch yr Adran; pethau anodd eu derbyn yn aml, ond yn dra angenrheidiol.

Pan fyddai Myrfyn a minnau'n sgwrsio, crwydrai'r pensynnu'n ddigyfeiriad o'i gariad at griced; dyddiau fel myfyriwr yn y Bristol Old Vic; yr elfen gystadleuol yn sponcen, y trip diweddara i Stratford; a Sosialaeth. Traethai'n huawdl ac yn llawn teimlad am y pethau hyn. Er yn wrthsentiment, gwr emosiynol dros ben oedd Myrf.

Ond mis neu ddau sydd ers iddo ymddeol. Roedd wedi fy warnio i beidio gwneud 'fuss', ond rywffordd neu gilydd ges i e i gytuno i ddod i ginio, lle roedd ond llond dwrn wedi i wahodd. Doedd dim 'speeches' na sentiment, ond rwyn credu'n gryf iddo fwynhau y foment fach honno o deurnged gan ei gyd-weithwyr.

Roedd yna adegau pan fyddai'r Peter Pan (fel y gelwid ef weithiau) yn siarad ac yn cyfrinachu am ei deulu, Mair ac yn arbennig Hus a Cathrin. Cefais y fraint o rannu sawl moment brin, gofiadwy, pan droai'r chwerthiniad uchel, yn wen, dawel, fwyn.

John Hefin

# LOWRI MORGAN

Ar Ragfyr 1af, a hithau ond yn 36 oed, daeth bywyd rhy fyr Lowri Morgan, gwraig annwyl Dai, i ben, yn ei chartref yn 47 Dyffryn Avenue, Cyncoed, wedi gwaeledd creulon a'i poenydiodd am bron ddwy flynedd.

Daeth Lowri o Borthmadog am gyfnod o hyfforddiant i Goleg Cyncoed, ac yna bu'n athrawes Gymraeg yn Ysgol Baden Powell Caerdydd lle mae'r plant a'r athrawon yn gweld colled un fywiog ac effeithiol yn ei swydd.

Bu'n aelod o Gôr Cerdd Dant Merched Caerdydd gyda Nan Jones ac yn ddiweddarach Côr Tannau Taf.

Bu gweld corff hardd yn nychu yn brofiad ysgytiol i'w ffrindiau ac yn arbennig Dai a'i rhieni Emlyn a Gwladys Davies a wnaeth eu cartref yng Nghaerdydd gyda Lowri i ofalu amdani yn ystod ei misoedd olaf. Ni chafodd neb ofal mwy cariadus a ffyddlon, ac yn ei hangladd talwyd teyrnged uchel i'r gofal arbennig a gafodd gan feddygon a staff Ysbytai'r Waun a Felindre lle bu Lowri dan driniaeth fwy nag unwaith yn ystod ei gwaeledd.

Daeth tyrfa fawr o deulu a ffrindiau o Gaerdydd a phob rhan o'r Gogledd i'w hangladd yng Nghapel Heol y Crwys ar Ragfyr y 5ed, a thalodd y Parch Harri Parri, ei chyn-Weinidog ym Mhorthmadog, deyrnged uchel iawn i'r ferch ddewr yma fu'n siriol i'r diwedd, ac a fu mor ddiolchgar am bob arwydd o gefnogaeth.

Diolch Low am ddangos gwerth ffydd a hyder dan anawsterau enbyd.

Estynir cydymdeimlad diffuant darllenwyr Y Dinesydd i Dai, a Mr. a Mrs. Emlyn Davies, Porthmadog a Bill, ei brawd a'i deulu yn Llandegfan, yn eu colled ddirfawr.

Derbyniwyd swm anrhydeddus er cof annwyl amdani i Gronfa Ymchwil Cancr.

## PRES I'R SGWENNWYR PRYSUR

Mae arian sbar gan Gymdeithas Gelfyddydau De Ddwyrain Cymru i'w roi i ffwrdd i grwpiau sgwennu sy'n dymuno gwahodd awduron i gael sesiynnau creu ac i drafod eu gwaith. Mae'r arian ar gael ar gyfer grwpiau sy'n sgwennu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ond hyd yn hyn, dim ond y grwpiau Saesneg sy' wedi manteisio arno. Os ydych yn cyfarfod yn rheolaidd i sgwennu neu i drafod eich cynnyrch llenyddol, beth am gymryd y cyfle i gael awdur gwadd atoch, neu os oes diddordeb gennych, beth am ffurfio grwp o'r fath er mwyn cymryd mantais o'r arian sydd heblaw hynny'n sefyll yn segur.

Dymuniadau da i Dr. Alun Oldfield Davies sydd newydd ddychwelyd adref o'r ysbyty ar ôl cyfnod byr o waeledd.

Yn ddiweddar, derbyniodd y Dinesydd lythyr oddi wrth un a hysbysebodd yn y papur yn amgau siec am yr hysbyseb, ond yn cwyno nad oedd wedi disgwyl bil, gan nad oedd gair yn y papur ynglyn â thâl. Dyfynnwn eiriau'r llythyr:

"Credaf ei fod yn ddyletswydd, yn ogystal a chwrteisi, i chi gyhoeddi bod rhaid talu am hysbysebu!"

Dyma, felly, fanylion o raddfeydd talu am hysbysebu yn y Dinesydd. Am fwy o fanylion, cysyllter â Chaerdydd 562816.

TUDALEN GYFA............£90

HANNER TUDALEN..........£55

CWARTER TUDALEN.........£30

TRAEAN TUDALEN..........£35

CHWECHED TUDALEN........£18

HYSBYSEBION BYCHAIN.....£5 - £8

# Arddangosfeydd
# CHWEFROR

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

Y PRIF ADEILAD, PARC CATHAYS

Cymdeithas Gelfyddyd Gyfoes Cymru - Tan 8 Mawrth

Yn ôl ym 1935 y cychwynwyd y Gymdeithas. Ar y pryd yr oedd y syniad o gasgliad cyhoeddus ac orielau arbennig i arddangos gweithiau celfyddyd yn rhywbeth cwbl newydd yng Nghymru.

Yn ystod yr hanner canrif diwethaf casglodd y Gymdeithas 565 o weithiau celf ac fe'u dosbarthwyd ymhlith casgliadau cyhoeddus drwy Gymru. Derbyniodd yr Amgueddfa Genedlaethol 68 ohonynt gan gynnwys gweithiau Gwen John, Harold Gilman, W.R. Lickert, Duncan Grant a Ceri Richards. Detholiad yw'r Arddangosfa hon o dros gant o weithiau i ddathlu'r penblwydd.

TY TURNER, Heol Plymouth, Penarth.

5 Gwneuthurwr Printiau Cyfoes - Tan 8 Mawrth

Gwaith S.W. Hayter, Michael Rothenstein, Agatha Sovel, Merfyn Romans a David Ferry.

CHAPTER, Heol y Farchnad, Canton

Artistiaid Caerdydd - Tan 15 Chwefror

Gwaith artistiaid sydd wedi cymryd rhan mewn cynllun cyfnewid â Stuttgart a Belfast ac a drefnwyd gan Chapter.

THEATR Y SHERMAN, Heol Senghennydd.

Arddangosfa Gerflunio

Yr Ysbryd Mewn Carreg - 9 Chwefror - 7 Mawrth

Gwaith Alain Ayers a wnaed fel comisiwn yn Llandrindod. Hefyd ffotograffiau gan Martin Roberts yn cyfleu tyfiant y gwaith dros gyfnod o 7 mis.

NEUADD DEWI SANT, Yr Ais

Daear Lliwiog, Mary Lloyd Jones, - 2 Chwefror - 7 Mawrth


Tirluniau Gorllewin Cymru a Llydaw yn cael eu mynegi mewn dyfrlliw a chalico wedi ei lifo.

ORIEL, Heol Siarl

Can mlynedd ymlaen - 14 Chwefror - 28 Mawrth

Cymdeithas Gelf De Cymru 1887-1987

Arddangosfa o waith rhai o'r aelodau presennol i ddathlu'r can mlwyddiant.
Pan gynhaliwyd yr arddangosfa cyntaf yn 1888 (pan oedd Augustus John yn 10 oed) talodd 6,000 o bobl am fynediad. Cewch weld hon am ddim!



"Craith ar ochr mynydd."

MARY LLOYD JONES


**COLEG PRIFYSGOL CYMRU**
**ABERYSTWYTH**

**GRADDAU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG**
**I FYFYRWYR ALLANOL**

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun gradd BA Prifysgol Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr allanol, a gwahoddir ceisiadau am le o fewn y cynllun yn Hydref 1987. Bydd myfyrwyr allanol yn dilyn cyrsiau yn y pynciau a ganlyn:

RHAN 1 Tri phwnc o blith ADDYSG, ASTUDIAETHAU CREFYDD, CYMRAEG, DRAMA (ASTUDIAETHAU THEATR), HANES CYMRU, LLYDAWEG, CERDDORIAETH

RHAN 2 Anrhydedd Sengl mewn CYMRAEG
neu
Anrhydedd Cyfun mewn dau o'r canlynol:
ADDYSG, CYMRAEG, DRAMA, HANES CYMRU, CERDDORIAETH

Cynigir cynhorthwy arbennig i fyfyrwyr allanol drwy ohebiaeth a chyswllt personol rheolaidd. Darperir nodiadau a chanllawiau manwl ar y cyrsiau, ynghyd â darlithiau ar gaset mewn rhai pynciau.

Astudir Rhan 1 dros 1-3 blwyddyn yn ôl dewis y myfyriwr. Bydd Rhan 2 yn estyn dros 4 blynedd fel arfer.

Gellir cael manylion am y cynllun a ffurflenni ymgeisio oddi wrth Hywel W Jones, Uwch-Ysgrifennydd Cynorthwyol, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Gwahoddir ceisiadau erbyn 16 Ebrill 1987.

## celtic asset management ltd.

RHEOLWYR BUDDSOSDIADAU AC ASEDAU PERSONOL
ARBENIGWYR MEWN CRONFEYDD BUDDSODDI

PORTFFOLIADAU BUDDSODDI DAN REOLAETH
NAILL AI CYFEIRIEDIG NEU GORDDEWISOL

AM FANYLION PELLACH CYSYLLTER Â:
DAFYDD HAMPSON-JONES
CYFARWYDDWR

78 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF4 3LX
Ffôn: 394021
Delwyr trwyddedig mewn gwarannau.

CYLCH LLYFRYDDOL CAERDYDD

DARLITH

NOS WENER 20FED O CHWEFROR

7 p.m.

Yn Adeilad y Dyniaethau, Coleg y Brifysgol

"Twf y Cyngor Llyfrau"
gan
Alun Creunant Davies

PRIFYSGOL CYMRU

Cwrs Cefndir 1987

ar gyfer dysgwyr profiadol


yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant
Llanbedr pont Steffan

10/4/87 - 15/4/87

COST £60.00

Manylion o Ganolfan Dysgu Cymraeg
22 Heol y Parc
Caerdydd
Ffôn (0222) 390980

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 68



**Ar Draws:**
1. Cerwch gyfaill yn rheol-aidd i ddangos yr hyn sydd rhyngoch (11)
8. Paratoi i orwedd yn gyfforddus (5'1,5)
11. Daniel neu Goronwy efallai (4)
12. Un o'r "odlau ysbrydol" (4)
13. "------- o'i flaen angylion Duw" (Emyn) (7)
15. Aeth caws i faethu'r gwr slafaidd (7)
16. Dylid eu cael o gleddyfau, yn ol y proffwyd (5)
17. Mi awn i gael cynnud, os aiff un ar goll (4)
18. Lili sy'n canu'r linell uchaf (4)
19. Fe'i enwir deirgwaith gan y seraffiaid yng ngweledigaeth Eseia (5)
21. "Pan fo hwyl go sal i ti,
Gweidda -------
Odid na thal iti"
(Manion T.G.J.) (7)
22. 21 mewn dillad parch (7)
23. Mae'r 'Dinesydd' yn flaenaf (4)
26. Dadlaith (5)
27. Yn dangos priodoledd arbennig sy'n bosib iddo weld dano (11)
28. Merch hanesyddol yn canfod twyll ymhlith noddwyr a wasgarwyd (11)

**I Lawr**
(Cliwiau uniongyrchol i gyd)
2. Llefaru (4)
3. Buchedd (7)
4. Yn wysg (4)
5. Awenau (7)
6. Dacw (4)
7. Plygu'n boleit (11)
8. Arwydd o frenhiniaeth (11)
9. Sut fyddech yn cyfieithu "investigative journalism"? - 'Newyddiaduriaeth -----------' (11)
10. Teimlais yn anghysurus (11)
14. Mae disgwyl iddo (5)
15. Tyfiant niweidiol yn y corff (5)
19. March (7)
20. Poeth (7)
24. Yr oeddwn yn dafodieithol a rhoddwn yn dreigledig (4)
25. Priodol (4)
26. Ceidwadwr o Sais (4)

---

**DATRYSIAD CROESAIR RHIF 67**

Ar Draws: 1. YN AROS YN Y MAES; 9. IAWNDAL; 10.DILYNAF; 11. WAETS; 12. ANFARWOLI; 13. OFNWCH; 15. LLANUWCHLYN; 17. UNWAITH ETO; 18. DRYSI; 19. ELIFFANTOD; 22. HWYAF; 23. O'R LLUOEDD; 24.ABEREDW; 25. ANGEL YR ARGLWYDD

I Lawr: 2. NAW-DEG-NAW; 3. RADIS; 4. SOL-FFA; 5. MILWRIWYD; 6. EGINO; 7. LLIAWS O LU NEFOL; 8. OFNI YN DDIRFAWR; 10. DY FONDO; 14. CHWIBANOGL; 15. LLUESTODD; 16. LE YN Y LLETY; 20. I OLLWNG; 21. DUAIR; 22. HOEDL

---

Ni chynigiwyd gwobr am Groesair Rhif 67 ond derbyn-iwyd dau ddatrysiad, a'r ddau yn hollol gywir, oddi wrth Mr. D. Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd a Dr. Ben Thomas, Cyncoed, y ddau, fel mae'n digwydd, wedi ennill tocyn llyfr yn ddiweddar. Llongyf-archiadau i'r ddau.

**Cystadleuaeth Rhif 68:** Cynigir tocyn llyfrau £5.00 Enw neu ffugenw ar ymyl y Croesair a'i gyfeirio at Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn Chwefror 18fed os gwelwch yn dda.

# SÊR Y DINESYDD
EIRY PALFREY

**ARIES:** Byddwch yn barod i weithio'n galed y mis hwn, a mi fyddwch yn ei fwynhau. Mae hwn yn gyfnod da i ddechrau dysgu gwyddor newydd. Bydd eich bywyd cymdeithasol yn eitha prysur hefyd.

**TAURUS:** Mae blas dramor i'r mis hwn, efallai yr ewch ar wyliau - neu syrthio mewn cariad a rhywun o wlad dramor. Mae e'n fis rhamantus iawn.

**GEMINI:** Fydd pethau ddim yn mynd yn rhy dda yn y gwaith, yn enwedig ar ol y 19eg - gwell rhoi trefn ar bethau cyn y dyddiad hwnnw. Gofalwch na fyddwch yn colli eich tymer gyda rhywun mewn awdurdod.

**CANCER:** Os oes gennych drefniadau ariannol i'w gwneud da chi gwnewch nhw cyn y lleuad lawn ar y 13eg. Fe allai hwn fod yn fis emos-iynol iawn os na chedwch eich teimladau dan reolaeth.

**LEO:** Daw pennod bwysig i ben yn eich bywyd y mis hwn, ac mi fyddwch yn canolbwyntio'n fwy ar yr elfennau creadigol o'ch bywyd. Cadwch at eich egwyddorion.

**VIRGO:** Os oes gennych broblemau peidiwch a cheisio eu datrys ar eich pen eich hun, mae angen cefnogaeth pobl eraill arnoch ar hyn o bryd. Efallai aiff trefniadau'n chwal ar ol y 19eg. Daliwch eich tafod.

**LIBRA:** Dyma fis ardderchog i spring-clinio. Mae'r cartref yn bwysig iawn i chi nawr, ac mi fyddwch wrth eich bodd yn ei harddu - ond peidiwch a gorwario.

**SCORPIO:** Daw llwyddiant yn y gwaith ond i chi weithio'n galed. Os oes gennych brob-lemau ymgynghorwch a rhywun hyn (dyn). Peidiwch a gadael unrhyw waith ar ei hanner.

**SAGITTARIUS:** Bydd eich bryd ar gymdeithasu'r mis hwn - a mi ddylech gael digon o hwyl. Mi fydd yn fis rhamantus hefyd - a chreadigol. A mi fyddwch chithau mewn hwyliau ardderchog, ond cofiwch weithio'n galed hefyd, yn ogystal a chwarae.

**CAPRICORN:** Mae hi'n bryd rhoi trefn ar eich materion ariannol. Dyma'r mis i adeiladu pontydd - yn y gwaith ac yn y cartref. Mi fyddwch mewn hwyliau da iawn

**AQUARIUS:** Mae gennychddigon o ynni a brwdfrydedd, ond gwnewch yn siwr eich bod ar y llwybr iawn cyn gwneud penderfyniad byrbwyll. Fe allech ddechrau pennod newydd yn eich bywyd personol nawr.

**PISCES:** Rydych ar drothwy pennod newydd gyffrous yn eich bywyd - mi fydd yn llwyddiant ond i chwi weithio'n galed a dal ati. Daliwch eich tafod, neu fe allai rhywun eich camddeall.

# NEWYDDION

Llongyfarchiadau calonog iawn i Beti Wyn a Ceri Thomas ar enedigaeth mab bychan. Dyma ŵyr cyntaf Nia a Richard Hall Williams fydd yn gwmpeini i'r wyres fach gyntaf Elin. Bydd Taid a Nain yn hapus iawn yn chwarae efo Elin a

---

Newyddion S4C

Penodwyd Bethan Siân Lewis yn Llyfrgellydd Fideo S4C, Aled Phillips yn drefnydd Adran Cyflwyno ac Aled Islwyn yn Swyddog i'r Wasg.

---

Diolch i Handel a Heulwen Morgan am eu cyfraniad hael i goffrau'r Dinesydd.

Derbyniwyd llythyr gan Dafydd Iwan yn annog pob Cymro brwd anfon llythyr syml o gefnogaeth i'r ymgyrch am Ddeddf newydd i'r iaith Gymraeg. Bydd Y Dinesydd yn anfon ar eich rhan ond gorau po fwyaf o lythyrau a gaiff y Swyddfa Gymreig. Ewch ati!

---

Llongyfarchiadau i Chris a Gareth Wallis Evans, Highfields, Llandaf, ar enedigaeth eu mab Dafydd Gerallt, brawd i Catrin.

---

Llongyfarchiadau i Myfyr Isaac a Caryl Parry Jones ar ddyfodiad Elan. Y mae gan Caryl "gymeriad bach" arall yn ei bywyd sydd yn siwr o greu "drama" ar yr aelwyd bob dydd.

---

Dymunwn adferiad buan a llwyr i Teleri Bevan sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty'r Waun yn ddiweddar. Braf cofnodi ei bod wedi cael gadael yr ysbyty am sbel o orffwys gartre.

---

Llongyfarchiadau i Carol a Ioan Kidd ar enedigaeth Lowri - chwaer fach newydd i Dafydd.

---

Cyfraniadau

Diolch i David Pope, dysgwr sy'n derbyn y Dinesydd trwy'r post yn Wooton Basset am ei gyfraniad. Diolch i D. Gwyn a Gwenllian Jones, Yr Eglwys Newydd am eu cyfraniad hael i goffrau'r Dinesydd.

CROESO FRAWD FRAWD!

LLONGYFARCHIADAU i Siân Wyn ac Owen John Thomas ar enedigaeth efeilliaid - Rhodri a Rhys ab Owen. Brodyr i John Owen, Hywel Gwynfor, Eurwen Rhian, a Iestyn ab Owen. Ŵyr i John Owen ac Evelyn Thomas ac Alun a Gwyneth Thomas Caerfyrddin, a gor ŵyrion i George Jones,Tanygrisiau. Llawenydd mawr i'r teulu i gyd.

CYMDEITHAS WYDDONOL CYLCH CAERDYDD

Cynhaliwyd ail gyfarfod y Gymdeithas Wyddonol y tymor hwn nos Lun, Tachwedd 10fed yng Nghlwb Ifor Bach. Testun y noson oedd 'Fferomonau mewn rheolaeth plaon' a'r siaradwr oedd Dr. Owen T. Jones, Cyfarwyddwr 'Biological Control Systems', cwmni o Drefforest a sefydlwyd drwy gydweithrediad Coleg y Brifysgol Caerdydd a Chwmni Leiner (Cynhyrchwyr gelatin, hyd at yn gymharol ddiweddar).

Efallai bod teitl y sgwrs yn ymddangos fel tipyn o lond ceg ar yr olwg gyntaf ond fe hoeliodd y sleid gyntaf sylw pawb yn syth - cartwn o fab a merch yn syllu ar ei gilydd yn gariadus a symbol o galon fawr goch rhyngddynt!!! Heb oedi rhagor, eglurwyd y cysylltiad inni : cemegion a gynhyrchir gan wyfynnod (yn y cyd-destun hwn) i ddenu'r rhyw arall yw fferomenau. Mae'r gwyfynnod benyw yn eu rhyddhau; mae'r gwryw yn adnabod arogl gwyfyn benyw o'r un rhywogaeth ac yn hedfan tuag ati.

Mae i bob rhywogaeth ei fferomonau arbennig ei hun: mae'n bosibl eu dadansoddi yn gemegol, eu synthesu yn y labordy ac yna eu cynnwys mewn capsiwlau rwber neu ddyfeisiau rhyddhau-dan-reolaeth, a roddir yn eu tro mewn gwahanol fathau o drapiau. Mae'r rhain wedi eu cynllunio yn y fath fodd na all y gwyfynnod ddianc ohonynt - fe gânt eu dal yn y glud sy'n gorchuddio'r arwyneb.

Mae'r fferomonau a ryddheir o'r capsiwlau yn y trapiau yn denu gwyfynnod o bellter hyd at 200 medr. Drwy amrywio'r fferomon, fe ddenir gwahanol blaon : cawsom weld sleidiau o'r trapiau a wneir yn Nhrefforest yn cael eu defnyddio ledled Ewrob at warchod amrywiaeth o gnydau e.e. coedwigoedd pinwydd, coed afalau, coed citrus ac olewydd a phlanhigfeydd cotwm (llawer ohonynt yn ne Sbaen).

Clywir llawer o son am orddefnydd pryfleiddiaid a'r peryglon a ddaw yn sgil hynny i iechyd pobl ac i'r amgylchfyd. Mae defnyddio fferomonau at reoli plaon yn gyfraniad pwysig tuag at leihau'r bygythiad hwn. Er enghraifft, gellir defnyddio trap fferomon i ddilyn newidiadau ym mhoblogaeth y pla, fel ei bod yn bosibl amseru'r chwistrellu a phryfleiddiad pan fo'r pla ar ei wannaf. Fel hyn, defnyddir llai o bryfleiddiad, ac fe adewir llonydd i'r pryfed buddiol sy'n cydfyw a'r pla ac yn elynion naturiol iddynt. Fel hyn hefyd, mae'r pla yn llai tebygol o fagu gwrthiant (resistance) i'r pryfleiddiad, a bydd hwnnw yn ei dro yn fwy effeithiol. Mae'r trapiau hefyd yn cael eu defnyddio mewn storfeydd bwyd i leoli plaon - sy'n golygu y gellir chwistrellu yn unig lle bo angen hynny, heb ddifwyno mwy o fwyd nag sydd raid.

Drwy ddefnyddio dulliau biolegol fel hyn mae rhai gwledydd datblygedig wedi gostwng eu defnydd o bryfleiddiaid i'r hanner. Roedd yn galondid clywed fod y cwmniau cemegol mawrion sy'n eu cynhyrchu yn bur ymwybodol o wrthwynebiad y cyhoedd ac yn cydweithio i raddau a chwmniau fel 'Biological Control Systems'. Mae'n dda gweld cwmni cyfrifol fel hyn yn cael ei sefydlu yn lleol mewn ymateb i sefyllfa a oedd yn prysur fynd o ddrwg i waeth.

Cawsom noson ddifyr dros ben yng nghwmni Dr. Jones, a hoffem gynnig croeso mawr i unrhyw rai a diddordeb i'r cyfarfod nesaf, a fydd nos Lun, Rhagfyr 8fed, fel arfer am 8 o'r gloch yng Nghlwb Ifor Bach. Bydd Dr. David Owens o Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru yn siarad am 'Y Clefyd Melys - Ymchwil'. Mae Dr. Owens yn flaenllaw yn y maes hwn a rydym yn ei chyfrif yn fraint ei fod wedi medru neilltuo peth o'i amser prin inni rhwng gwibdeithiau i bedwar ban byd!

Mae noson ddifyr arall o'n blaenau - dewch yn llu!

# LLYFRAU

RUGBY: BODY AND SOUL
gan Bill Samuel
Gwasg Gomer, £5.95

Hunangofiant y gwr o Graig Cefn Parc, Cwm Tawe a gafodd gymaint o ddylanwad ar yrfa Gareth Edwards yw hwn. Mae'r llyfr, felly, yn debyg o fod o ddiddordeb arbennig i ddilynwyr Rygbi ac i ddadansoddwyr datblygiadau un o'i sêr disgleiriaf.

Ond mae yna fwy na hynny ynddo, yn arbennig yn y bennod olaf; os mai Rygbi yw cariad cyntaf yr awdur 'does dim amheuaeth bod ei fam-iaith yn ail anrhydeddus yn rhestr ei flaenoriaethau. Mae'n gresynu at y dirywiad yng nghyflwr yr iaith yn ystod yr hanner-can mlynedd diwethaf ac yn crynhoi ei deimladau drwy gyfeirio at y sefyllfa heddiw ym Mharc yr Arfau -
"Yno" meddai "y gwelwn ffolineb ein system addysg sy wedi amddifadu cenhedlaethau o'n hetifeddiaeth ieithyddol, gwerthfawr. Gwelwn yno ddynion yn sefyll, eu pennau'n uchel, yn canu'r Anthem Genedlaethol i gyfeiliant y band. Eraill yn fud, llawn embaras, am na fedran nhw fynegi eu teimladau ar gan. Saif tîm Cymru fel milwyr, rhai'n canu'n frwdfrydig, rhai'n mwmian, rhai'n methu ymuno o gwbl. Pwy sy ar fai am eu methiant? Onid yw Hen Wlad fy Nhadau yn haeddu ei le yn ein ysgolion?"

Yn Saesneg mae'n sgrifennu ac efallai am unwaith da hynny os bydd i'w eiriau gyrraedd clustiau ambell un o'r rhai "llawn embaras" sy'n uchel eu 'Come on, Wales".